Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Pysgodfeydd

Medi 2020

## 1. Cefndir

Cafodd Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig[1] (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 29 Ionawr 2020. Nod y Bil yw darparu fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS) (y Confensiwn ar Gyfraith y Môr) mewn perthynas â gweithgarwch pysgota ym Mharth Economaidd Unigryw'r Deyrnas Unedig ar ôl iddi ymadael â Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

[1] Bil Pysgodfeydd 2019-21 (HL Bill 71)

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**1.** Ar 12 Chwefror 2020, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.[2]

**2.** Fe wnaethom adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 21 Mai 2020 (yr adroddiad cyntaf).[3] Mae'r adroddiad cyntaf yn nodi cefndir y Bil mewn mwy o fanylder, gan gynnwys Bil Pysgodfeydd 2017-19[4] (Bil 2017-19), y mae'r Bil yn debyg iddo mewn sawl ffordd. Mae'r adroddiad cyntaf hefyd yn crynhoi diben a chwmpas y Bil.

**3.** Ymatebodd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), i'r adroddiad cyntaf ar 30 Mehefin 2020.[5]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

**4.** Ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, diwygiwyd y Bil yn ystod ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi.

**5.** Gan hynny, ar 8 Gorffennaf 2020, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)[6] mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.

**6.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig adrodd ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 24 Medi 2020.[7]

**7.** Mae paragraffau 9 i 22 Memorandwm Rhif 2 yn disgrifio'r diwygiadau a wnaed i'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Pysgodfeydd, Chwefror 2020, Ebrill 2020

[3] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd, Mai 2020

[4] Bil Pysgodfeydd 2017-19 (Bil 278 Tŷ'r Cyffredin)

[5] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 30 Mehefin 2020

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020

[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020,

**8.** Fel y nodwyd ym Memorandwm Rhif 2, gwnaed diwygiadau o'r fath, a gyflwynwyd gan Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi nad ydynt yn aelodau o'r Llywodraeth, i:

- gymal 1 – amcan cynaliadwyedd;
- cymal 18 – gofyniad glanio cenedlaethol;
- cymal 26 – dosbarthiad y cwota;
- cymal 27 – cwota newydd o'r dyraniad yn Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chychod o dan 10m;
- cymal 48 – monitro electronig o bell;
- Atodlen 10 – Rheoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

**9.** Mae Memorandwm Rhif 2 hefyd yn nodi bod nifer o ddiwygiadau wedi eu cyflwyno, ar gais Llywodraeth Cymru, i gymalau 11, 41, 45, 50, a 53, ac Atodlenni 1 ac 8[8] i newid cyfeiriadau oedd yn y Bil at 'Gynulliad Cenedlaethol Cymru' i 'Senedd Cymru'. Mae'r cyfeiriad at 'Fil neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru' hefyd wedi ei newid i 'Fil neu Ddeddf Senedd Cymru' yng nghymal 51[9].

**10.** Mae paragraffau 23 i 29 Memorandwm Rhif 2 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi. Mae'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwygiadau i gymal 26 ac Atodlen 10, a'i bod yn croesawu'r diwygiadau sy'n adlewyrchu newid enw'r Senedd. Fodd bynnag, o ran y diwygiadau y cytunwyd arnynt i gymalau 1, 18, 27 a 48, nodir ym Memorandwm Rhif 2:

> "… mae'[n] sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym ac mae angen ystyried polisi a goblygiadau datganoli pob diwygiad yn fanwl. Ein prif bryder yw sicrhau bod y newidiadau a gyflwynir yn gyson â pholisïau pysgodfeydd Cymru ac nad ydynt yn torri ar draws cymhwyster y Senedd na phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.
>
> Os ar ôl cynnal dadansoddiad manwl ein bod yn fodlon i'r diwygiadau barhau yn y Bil, rydym yn disgwyl, fan lleiaf, y bydd angen datrys materion drafftio, i egluro diben y polisi yn fwy ac i adlewyrchu'r setliad datganoli yn gliriach.
>
> Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth DU ar rai meysydd o'r Bil ac ar y diwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adrodd yr Arglwyddi. Byddwn yn nodi ein safbwynt yn fanylach wrth i'r sefyllfa ddatblygu a'r Bil yn parhau ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin."[10]

[8] Cyfeiriadau at y Bil fel y'i cyflwynwyd: cymalau 11, 39, 43, 47, 50, ac Atodlenni 1 ac 8.

[9] Cyfeiriad at y Bil fel y'i cyflwynwyd: cymal 48.

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020, paragraffau 27-29

**11.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Dywedir:

> "Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddull y DU gyfan i greu'r Fframwaith Pysgodfeydd a dim ond mewn bil y DU y gellir gwneud hynny. O ran y pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhan o'r fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac yn bendant yng Nghymru, hyd nes ein bod yn gallu dwyn ymlaen Bil cynhwysfawr ar gyfer Pysgodfeydd Cymru."[11]

**12.** Mae Memorandwm Rhif 2 hefyd yn cadarnhau, yn ychwanegol at argymhelliad 7 yn ein hadroddiad cyntaf, bod Atodiad A i Femorandwm Rhif 2 yn nodi'r pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi eu cynnwys yn y Bil, y rhesymau dros gymryd y pwerau a'r dewis o weithdrefn ar gyfer pob pŵer.[12]

**13.** Deuir i'r casgliad a ganlyn ym Memorandwm Rhif 2:

> "Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn. Dechreuodd ei daith yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Gorffennaf a bydd cyfleoedd pellach i geisio diwygio unrhyw rhannau o'r Bil nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithio er lles Cymru.
>
> Rhagwelir y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod yn dilyn cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a chyn trafod cynnig cydsyniad yn y Senedd."[13]

## Datblygiadau diweddaraf yn Senedd y Deyrnas Unedig

**14.** Yn dilyn ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi, symudodd y Bil i Dŷ'r Cyffredin ar 2 Gorffennaf 2020. Cynhaliwyd Ail Ddarlleniad y Bil ar 1 Medi 2020 a dechreuodd Cyfnod y Pwyllgor ar 8 Medi 2020.

**15.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd ar 16 Medi 2020.[14]

**16.** Nodir ym Memorandwm Rhif 3:

> "Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn cynnwys diwygiadau a wnaed hyd at ac ar 7 Medi (a chanlyniad diwrnod cyntaf ystyriaethau'r Pwyllgor ar 8 Medi). (...)

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020, paragraff 32

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020, paragraff 30

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020, paragraffau 34-35

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Pysgodfeydd, Medi 2020

Mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a gyflwynwyd ar ôl 7 Medi (ac a gafodd eu hystyried yn ystod diwrnodau hwyrach y Pwyllgor), bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at bob Aelod o'r Senedd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i roi rhagor o wybodaeth ac i gadarnhau canlyniadau ystyriaethau'r Pwyllgor, cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol."[15]

**17.** Mae paragraffau 11 i 38 Memorandwm Rhif 3 yn nodi'r diwygiadau sydd wedi eu cyflwyno i'r Bil ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 2 y mae angen caniatâd ar eu cyfer. At hynny, mae paragraffau 39 i 62 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y diwygiadau hynny a gyflwynwyd i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

**18.** Nodir ym Memorandwm Rhif 3 bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r holl ddiwygiadau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.[16]

**19.** Cwblhawyd Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Medi 2020.

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**20.** Fe wnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 14 Medi 2020.[17]

**21.** Nid oeddem mewn sefyllfa i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog yn sgil yr amserlen dynn ar gyfer adrodd. Fodd bynnag, ysgrifennom[18] at y Gweinidog ar 31 Gorffennaf 2020, gan godi nifer o faterion gan gynnwys y diwygiadau a wnaed i:

- gymalau 1, 18, 27 a 48 y Bil;
- Atodlenni 5 a 10 y Bil ynghylch yr amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar gyfleoedd pysgota'r Deyrnas Unedig;
- Atodlen 10 i'r Bil sy'n newid cyfeiriadau o 'weinyddiaeth pysgodfeydd' i 'Ysgrifennydd Gwladol'.

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Pysgodfeydd, Medi 2020, paragraffau 7-8

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Pysgodfeydd, Medi 2020, paragraff 67

[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Medi 2020

[18] Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 31 Gorffennaf 2020

**22.** Yn ogystal, gofynnom yn ein llythyr at y Gweinidog ar 31 Gorffennaf 2020 am eglurhad ar nifer o bwyntiau a godwyd gan y Gweinidog yn ei hymateb i'n hadroddiad cyntaf.

**23.** Ymatebodd y Gweinidog[19] i'n llythyr ar 3 Medi 2020, a ystyriwyd gennym yn ein cyfarfod ar 14 Medi 2020.[20]

**24.** Nid oedd yn bosibl cynnal gwaith craffu manwl ar Femorandwm Rhif 3 o ystyried y dyddiad y gosodwyd Memorandwm Rhif 3 a'n dyddiad cau ar gyfer adrodd.

**25.** Fodd bynnag, lle bo hynny'n bosibl, cyfeirir at Femorandwm Rhif 3 yng ngweddill yr adroddiad.

## Materion yn ymwneud ag ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf

### Cymal machlud a chyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru

**26.** Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom sylwadau ar fwriadau'r Gweinidog o ran Bil Pysgodfeydd i Gymru. O ystyried mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno ei deddfwriaeth pysgodfeydd ei hun, dywedom ei bod yn parhau i fod yn aneglur pam nad yw'r Gweinidog wedi ceisio cynnwys cymal machlud yn y Bil.

**27.** Nodwyd yn argymhelliad 4 ein hadroddiad cyntaf y dylai'r Gweinidog geisio diwygiad i'r Bil i fewnosod cymal machlud a fyddai'n cyfyngu'r defnydd o'r cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i Gymru hyd at 2024. Fe wnaethom awgrymu y byddai hyn yn sicrhau bod eglurder yn y dyfodol ynghylch cymhwyso deddfwriaeth sylfaenol ynghylch pysgodfeydd yng Nghymru.

**28.** Er ei bod hi’n cytuno bod eglurder ynghylch amseriad Bil Pysgodfeydd Cymru yn ddymunol, ac yn nodi ei bod yn hanfodol bod hynny’n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, gwrthododd y Gweinidog ein hargymhelliad. Dywedodd:

> “Fel arfer, ystyrir cymalau machlud pan fo amserlen glir ar gyfer dileu darpariaethau Cymreig [ond] oherwydd yr ansicrwydd a'r anawsterau sy'n wynebu ein diwydiant … ni allwn fod yn sicr pa ymyriadau polisi newydd y bydd eu hangen o ganlyniad i hyn. (…)
>
> Mae angen inni sicrhau bod gennym yr adnoddau i reoli'r heriau sy'n wynebu ein diwydiant pysgodfeydd o ganlyniad i Brexit (a COVID-19 bellach), felly mae angen inni gadw'r pwerau hyn ym Mil y DU, cyhyd ag y gallai fod eu hangen arnom.

[19] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Medi 2020

Felly, nid ydym am osod cymal machlud sy'n creu'r risg y collir pwerau allweddol i Gymru, drwy weithrediad awtomatig deddf. Rydym am gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sydd wedi'i datblygu gan roi digon o amser i graffu arni a'i hystyried yn briodol. Nid wyf yn barod i geisio cymal machlud a allai roi diwydiant pysgota Cymru o dan anfantais o gymharu â gweddill y diwydiant yn y DU.

Gallaf eich sicrhau nad yw'n fwriad gennyf gael y pwerau hyn sydd mewn Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU am fwy o amser nag sydd ei angen…”.[21]

**29.** Nodwyd yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog 'Ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a'r camau nesaf tuag at bolisi pysgodfeydd yng Nghymru yn y dyfodol', a gyhoeddwyd ar 15 Medi 2020:

"Er ein bod yn parhau i fod wedi ymrwymo i fframwaith y DU, ein bwriad yw ymdrin â'r pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil nad ydynt yn rhan o'r fframwaith fel mesur dros dro nes i Fil ar gyfer Pysgodfeydd Cymru gael ei gyflwyno i'r Senedd."[22]

**30.** Yn ogystal, tynnwyd sylw yn y datganiad ysgrifenedig hwn at Fil Marchnad Fewnol Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

"Mae'r posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb wedi parhau; nid yw Bil y Farchnad Fewnol a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol ein safonau amgylcheddol a diogelwch bwyd uchel yng Nghymru, nac o ran sut a ble y gwneir penderfyniadau allweddol yn y dyfodol."[23]

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota

**31.** Yn ein hadroddiad cyntaf fe wnaethom nodi ein siom nad oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â'r fframwaith pysgodfeydd, yn enwedig gan ein bod ni'n ymwybodol bod trafodaethau ar gytundeb o'r fath wedi bod ar y gweill ers i ni graffu ar Fil 2017-19, a'i bod yn ymddangos bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hanfodol i argymhelliad y Gweinidog i roi cydsyniad i'r Bil.

**32.** Daethom i'r casgliad bod y Senedd dan anfantais ddifrifol wrth beidio â chael mynediad at fanylion y cytundeb allweddol hwn, ac y byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ddatblygu'r

---

[21] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 30 Mehefin 2020

[22] Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru 'Ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a'r camau nesaf tuag at bolisi pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol', 15 Medi 2020. Gweler hefyd Memorandwm Rhif 3, paragraff 10.

[23] Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru 'Ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a'r camau nesaf tuag at bolisi pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol', 15 Medi 2020

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn enwedig o ran mecanwaith datrys anghydfodau.

**33.** Yn argymhelliad 5 ein hadroddiad cyntaf i'r Gweinidog gofynnom iddi egluro pam ei bod yn briodol gofyn i'r Senedd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil heb i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei gytuno.

**34.** Yn argymhelliad 6 gofynnwyd i'r Gweinidog roi diweddariadau rheolaidd i ni ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**35.** Yn ei llythyr atom ar 30 Mehefin 2020, wrth nodi ei bod yn derbyn argymhelliad 5, ni wnaeth y Gweinidog fynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol o egwyddor a ofynnwyd iddi. Ymateb y Gweinidog oedd:

> “Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Rydym yn pwyso am i gynnydd gael ei wneud o ran y mater hwn, a'm bwriad yw y caiff yr Aelodau gyfle i fwrw golwg dros y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mewn perthynas â chymal 23, cyn eu penderfyniad ynghylch cydsynio."[24]

**36.** O ran argymhelliad 6, cytunodd y Gweinidog i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd a wneir wrth gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys mecanwaith datrys anghydfodau.

**37.** Yn ein llythyr at y Gweinidog ar 31 Gorffennaf, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau mai ei bwriad yw sicrhau bod digon o amser i Bwyllgorau'r Senedd ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyn y ddadl berthnasol ar gynnig cydsyniad yn y Cyfarfod Llawn. Atebodd y Gweinidog:

> “Dywedais hefyd y byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y Fframwaith Pysgodfeydd, ac yn benodol y cynnydd mewn perthynas â chymal 24 (cymal 23 yn flaenorol). Mae fy swyddogion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgor sydd wrthi'n drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gan gynnwys y Mecanwaith Datrys Anghydfod ac ystyried y Concordat).
>
> Yn lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy'n dal i gael ei ddatblygu ac na fydd felly yn barod cyn diwedd taith y Bil, rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gytundeb ar y materion allweddol y mae angen sicrwydd yn eu cylch er mwyn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil. Byddaf yn rhannu canlyniad y cais hwn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd. "[25]

[24] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 30 Mehefin 2020
[25] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

## Pwerau llunio rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 3

**38.** Yn ystod ein gwaith craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog amlinellu o dan ba amgylchiadau y byddai'n angenrheidiol ac yn hwylus, yn ei barn hi, i arfer y pwerau Atodlen 3 a roddwyd i Weinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu pysgod môr.

**39.** Fe wnaethom nodi esboniad y Gweinidog, ond daethom i'r casgliad bod angen egluro'r mater ymhellach. Yn hynny o beth, roedd argymhelliad 8 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Gweinidog ddarparu eglurder pellach ar y pwerau i wneud rheoliadau yn Atodlen 3, ac yn benodol o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn angenrheidiol ac yn hwylus arfer y pwerau hyn.

**40.** Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn ac, yn ei llythyr atom ar 30 Mehefin 2020, rhoddodd ymateb manwl ar y darpariaethau a’r pwerau yng nghymalau 14 i 17 ac Atodlen 3. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni ddaeth eglurder ynghylch pam dylid rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu oherwydd rhesymau hwylustod. Pan ysgrifennom at y Gweinidog ar 31 Gorffennaf, fe wnaethom ofyn am ragor o wybodaeth am y mater hwn. Atebodd y Gweinidog:

> “Mae'r pwerau trwyddedu yn y Bil ac Atodlen 3 yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen i Weinidogion Cymru ddarparu system drwyddedu effeithiol a chadarn nawr ac yn y dyfodol. Fel y nodais yn fy ymateb i'ch adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rydym wedi diwygio ein Hofferynnau Statudol presennol ar gyfer trwyddedu i sicrhau eu bod yn parhau i fod ar waith ar ôl i'r Bil ddod i rym, a bod y pwerau yn y Bil yn efelychu’r pwerau blaenorol a nodwyd yn Neddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr 1992 mewn perthynas â chychod pysgota o Brydain. Mae darpariaethau'r Bil hefyd yn gosod gofynion trwyddedu newydd ar gychod pysgota o dramor sy'n pysgota o fewn ffiniau pysgodfeydd Prydain, sy'n ofynnol o ganlyniad i’r DU yn gadael yr UE.
>
> Mae’r pwerau yn y Bil sy’n rhoi awdurdod i drwyddedu pysgota môr yn ein galluogi i barhau i reoli a thrwyddedu pysgota môr yn ein dyfroedd, gyda phwerau o’r fath yn ein galluogi i amrywio, dirymu a gosod amodau ar drwyddedau, gweithio gydag awdurdodau eraill lle mae angen ac ati. Mae’r pwerau hyn yn cael eu defnyddio, a byddant yn parhau i gael eu defnyddio yn rheolaidd wrth inni gyflawni ein swyddogaethau arferol fel awdurdod trwyddedu pysgota môr.
>
> O ran cychod pysgota o Brydain bydd y drefn drwyddedu bresennol yn parhau. Ar gyfer cychod pysgota o dramor, mae Gweinidogion Cymru, ynghyd â'r gweinyddiaethau eraill, wedi cytuno i drwyddedau i gychod o dramor gael eu rhoi gan yr Awdurdod Dyroddi Unigol, a fydd yn gweithredu o dan drefniant Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru. Ni fydd ganddynt bwerau i wneud penderfyniadau am y bydd Gweinidogion Cymru yn awdurdodi’r trwyddedau cyn iddynt gael eu rhoi.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau naill ai i ddiwygio'r system bresennol neu sefydlu un newydd. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny yn y dyfodol, bydd y pwerau ar gael iddynt. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

Gobeithio bod hyn yn helpu i roi rhagoro eglurder, ond os oes gennych gwestiwn penodol, byddwn yn fodlon ei ateb."[26]

## Diwygiadau i gymalau 1, 18, 27 a 48

**41.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn darparu manylion am y diwygiadau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 o'r Bil.[27] Yn benodol o ran cymal 27, nodir ym Memorandwm Rhif 2:

"Ein barn gychwynnol yw bod diffyg eglurder yng nghymal 27 ac mae hynny'n arwain at gwestiwn ynghylch a oes angen cydsyniad gan y Senedd. Er bod angen dargadw elfen o gyfleoedd pysgota Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chychod dan 10 metr, mae'r gofyniad ar gyfer gwneud y cyfrifiad cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ar gyfleoedd pysgota'r DU yn codi cwestiynau ynghylch sut y gall y cyfrifiad hwnnw effeithio ar gyfleoedd pysgota gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n bosibl nad yw hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol o fewn Concordat Pysgodfeydd 2012. Nid ydym yn meddwl mai bwriad y diwygiad yw hyn ond mae'r potensial ganddo i effeithio ar gyfleoedd pysgota Cymru ac fel y'i drafftiwyd, credwn y bydd angen cydsyniad y Senedd arno. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai mater drafftio ydyw y bydd angen ei egluro."[28]

**42.** Fel y nodwyd ym mharagraff 10 uchod, roedd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y diwygiadau i'r cymalau hyn yn y Bil o ran a oedd y newidiadau yn gyson â'i pholisïau pysgodfeydd yng Nghymru, ac nad ydynt yn torri ar draws cymhwysedd y Senedd na phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

**43.** Yn ein llythyr at y Gweinidog ar 31 Gorffennaf, fe wnaethom ofyn cyfres o gwestiynau iddi am y diwygiadau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 o'r Bil.[29] Yn ei llythyr ar 3 Medi 2020, ymatebodd y Gweinidog:

"I ateb eich cwestiynau 1 a. – d. a 2 a. – b., 3 a. – c., gallaf roi'r diweddaraf ar y rhain. Fel y gwelwch, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno diwygiadau ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i wrthdroi'r diwygiadau a wnaed yn ystod cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi i Gymalau 1, 18, 27 a 48. Ceisiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol, Victoria

[26] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

[27] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Ionawr 2019, paragraffau 10-15

[28] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Gorffennaf 2020, paragraff 14

[29] Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 31 Gorffennaf 2020

Prentis AS, fy marn ar y mater hwn, a dweud ei bod yn cefnogi ysbryd y diwygiadau, ond nad yw'r diwygiadau'n gadarn o safbwynt deddfwriaethol a chyfansoddiadol."[30]

**44.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ailadrodd sylwadau'r Gweinidog yn ei llythyr ar 3 Medi bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno diwygiadau i wyrdroi'r diwygiadau a wnaed i gymalau 1, 18, 27 a 48 o'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae paragraff 39 Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau bod y diwygiad i gymal 1 wedi ei ystyried a'i gytuno ar ddiwrnod cyntaf Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.[31]

## Diwygiadau i'r Bil ynghylch faint o amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar gyfleoedd pysgota'r Deyrnas Unedig

**45.** Ychwanegwyd Atodlen 10 newydd at y Bil sy'n ymgorffori'r deunydd a oedd yn yr Atodlen 10 wreiddiol, ond gyda diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir.

**46.** O ran y pŵer i bennu cyfleoedd pysgota a hyblygrwydd o ran cwota – ac fel y nodwyd ym mharagraffau 19 a 20 Memorandwm Rhif 2 – mae'r amser y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu ar gyfer cyfleoedd pysgota'r Deyrnas Unedig wedi newid. Mae cyfeiriadau at flwyddyn galendr (calendar year) wedi eu dileu ac nid oes geiriad yn lle hynny. Mae'r newid hwn hefyd yn berthnasol i bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5, gyda Memorandwm Rhif 2 yn nodi mai er budd cysondeb y gwnaed hynny.

**47.** Yn ein llythyr at y Gweinidog, fe wnaethom ofyn iddi a oedd hi wedi trafod y diwygiadau i Atodlen 10 gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r effaith ganlyniadol ar bwerau Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5. Yn ogystal, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau y dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer y diwygiadau perthnasol i Atodlen 5.

**48.** Atebodd y Gweinidog:

"Do, trafododd fy swyddogion y darpariaethau hyn a chytuno arnynt cyn iddynt gael eu cyflwyno, a chadarnhaf y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiad a wnaed i baragraff 1 o Atodlen 5."[32]

[29] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

[30] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Pysgodfeydd, Medi 2020, paragraff 39

[31] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

## Diwygiadau i Atodlen 10 yn newid cyfeiriadau at 'weinyddiaeth pysgodfeydd' i 'Ysgrifennydd Gwladol'

**49.** Fel y soniwyd uchod ym mharagraff 45, mae Atodlen 10 newydd yn cynnwys y deunydd a oedd yn yr Atodlen 10 wreiddiol ond gyda diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir.

**50.** Mae nifer o'r cyfeiriadau at weinyddiaeth pysgodfeydd – "fisheries administration" – yn yr Atodlen 10 wreiddiol wedi cael eu newid i Ysgrifennydd Gwladol – "Secretary of State". Yn ein barn ni, gellid ystyried bod rhai o'r darpariaethau yn yr Atodlen 10 newydd yn ymwneud ag arsylwi neu weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n faterion wedi eu datganoli.

**51.** Er ein bod yn cydnabod bod cydsyniad yn cael ei geisio mewn perthynas ag Atodlen 10, yn ein llythyr at y Gweinidog, gofynnom pam mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'r gweinyddiaethau pysgodfeydd, a pham na chafodd hynny ei amlygu ym Memorandwm Rhif 2? Yn ei llythyr ar 3 Medi 2020, dywedodd y Gweinidog:

> "Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU, yn dilyn dadansoddiadau cyfreithiol o bob cyfeiriad yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am y rolau, yn unol â'r setliad datganoli. Roedd y swyddogion yn glir iawn ynghylch manylion y setliad datganoli mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol a'n rôl wrth eu gweithredu. Fy marn i yw bod y rhain wedi cael eu cymhwyso yn gywir mewn perthynas â'r setliad datganoli. Rwyf wedi rhoi tabl yn Atodiad 1 i egluro'r sail resymegol ar gyfer y diwygiadau a wnaed drwy Atodlen 10 i'r Bil."[33]

**52.** Drwy Atodlen 10, newidiwyd cyfeiriadau at weinyddiaethau pysgodfeydd ("fisheries administration") i Ysgrifennydd Gwladol ("Secretary of State") yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir:

- Erthyglau 28, 29 a 33 o'r Rheoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Rheoliad (UE) Rhif 1380/2013);
- Erthyglau 4, 6 a 13 o Gynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd (Rheoliad (UE) 2018/973);
- Erthyglau 4, 7 a 15 o Gynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin (Rheoliad (UE) 2019/472).

[32] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

**53.** Eglurir yn Atodiad 1 llythyr y Gweinidog ar 3 Medi, ym mhob achos, bod deddfau'r Undeb Ewropeaidd a ddargedwir wedi eu diwygio gan reoliadau a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2019, fel a ganlyn:

- Diwygiodd Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 Reoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin 1380/2013 yr Undeb Ewropeaidd;
- Diwygiodd Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 Reoliad Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd 2018/973 yr Undeb Ewropeaidd;
- Diwygiodd Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 Reoliad Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin 2019/472 yr Undeb Ewropeaidd.[34]

**54.** Fel offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y Deyrnas Unedig yn unig o dan adrannau 8, 9 neu 23 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (neu Atodlen 4 y Ddeddf honno), sy'n cynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, gosododd Llywodraeth Cymru ddatganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C i roi gwybod am y rheoliadau hyn. Ystyriwyd pob un o'r datganiadau ysgrifenedig hyn gan y Pwyllgor.[35]

**55.** Yn Atodiad 1 llythyr y Gweinidog ar 3 Medi eglurir ymhellach fod effaith y diwygiadau a wnaed eisoes i'r Erthyglau penodol gan reoliadau a wnaed yn y Deyrnas Unedig, ym mhob achos, yn golygu bod "y swyddogaethau o dan yr erthyglau hynny i bob pwrpas eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru"[36]. Nodir hefyd yn Atodiad 1:

> "O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r weinyddiaeth pysgodfeydd gan y byddai'r rhwymedigaeth neu'r pŵer o dan sylw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os bydd wedi'i gynnwys/chynnwys mewn Deddf gan y Senedd neu os y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi'i (g)osod neu ei r(h)oi trwy arfer un o'u swyddogaethau yn union cyn y diwrnod ymadael. Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill gategori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru."[37]

---

[33] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020, Atodiad 1

[35] Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C - gweler SO30c(5)42, SO30C(5)107, ac SO30C(5)154.

[35] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020, Atodiad 1

[36] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 3 Medi 2020

## Ein barn ni

**56.** Manylir ar ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer gweithredu pellach yn y paragraffau a ganlyn. Dylid darllen ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 2 ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil.

**57.** Rydym yn cydnabod ymateb y Gweinidog i'r argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf ac yn croesawu diweddariad y Gweinidog ar hynt y Bil yn Senedd y Deyrnas Unedig.

**58.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 12, rydym yn croesawu cynnwys Atodiad A ym Memorandwm Rhif 2, sy'n nodi'r pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi eu cynnwys yn y Bil, y rhesymau dros gymryd y pwerau a'r dewis o weithdrefn ar gyfer pob pŵer.

**59.** Fodd bynnag, o ran y materion eraill a godwyd yn ein hadroddiad cyntaf, mae rhai materion sy'n parhau i fod yn destun pryder ac sydd angen sylw pellach ac, yn ein barn ni, angen camau gweithredu gan y Gweinidog.

> **Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn cyn y drafodaeth ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.

**60.** Er ein bod yn cydnabod bod memoranda dealltwriaeth yn gytundebau rhwng llywodraethau, rydym wedi mynegi ein pryderon ar bob cyfle priodol ynghylch y defnydd parhaus o gytundebau rhynglywodraethol nad ydynt yn rhwymol.

**61.** Yn ein hadroddiad cyntaf, dywedasom unwaith eto bod ymrwymo i gytundebau o'r fath fel ffordd o ddatrys materion o fewn Bil y Deyrnas Unedig lle mae angen cydsyniad y Senedd, ac yna peidio â sicrhau bod y cytundeb hwnnw ar gael i'r Senedd mewn modd amserol, yn lleihau gallu'r Senedd a'i phwyllgorau i graffu'n llawn ar oblygiadau'r Bil hwnnw.

**62.** Yn ein hadroddiad cyntaf dywedasom hefyd, ac fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 31 a 32, bod y Senedd yn cael ei rhoi dan anfantais ddifrifol wrth beidio â chael mynediad at fanylion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota.

**63.** Roedd y pŵer hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol yn fater llinell goch i'r Gweinidog, a nododd fod datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hanfodol i unrhyw argymhelliad y gall ei roi er mwyn i'r Senedd roi caniatâd i'r Bil.

**64.** Mae'r ffaith na fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bellach yn barod cyn cwblhau taith y Bil drwy Senedd y Deyrnas Unedig yn bryder o bwys. Mae'r sefyllfa hon, ynghyd â'r ffaith nad ydym eto wedi derbyn manylion yr ymateb gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch cais y Gweinidog am gytundeb ar y materion allweddol sy'n ymwneud ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota, yn annerbyniol.

**65.** Mae craffu ar weithredoedd y weithrediaeth yn elfen gynhenid o swyddogaethau deddfwrfa ac mae'n cyfrannu at ddemocratiaeth gadarn. Nid yw craffu yn ychwanegiad at weithrediad dyddiol y weithrediaeth ac ni ddylid trin y gofyniad i graffu fel ôl-ystyriaeth ychwaith.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i'r Gweinidog—

- ddarparu tystiolaeth i'r Senedd bod y pryderon ynghylch arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota wedi eu datrys yn llawn;
- sicrhau bod manylion y cytundeb a sefydlwyd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y materion allweddol sy'n ymwneud ag arfer y pŵer sydd yng nghymal 24 sydd ar gael i Aelodau'r Senedd.

**66.** Mae gennym hefyd rai pryderon ynghylch ymateb y Gweinidog i'n galwad ar i'r Bil gynnwys darpariaeth machlud sy'n gymwys i'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru.

**67.** Mae'r Gweinidog, unwaith eto, wedi cadarnhau ei bod yn hanfodol bod Bil Pysgodfeydd Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae hi hefyd wedi cytuno â ni fod eglurder ynghylch amseriad Bil Pysgodfeydd Cymru yn ddymunol.

**68.** Nid yw'n eglur i ni pam mae sylwadau'r Gweinidog ynghylch datblygu Bil Pysgodfeydd Cymru a pham y byddai ceisio cymal machlud yn y Bil o bosibl yn rhoi diwydiant pysgota Cymru dan anfantais o gymharu â gweddill diwydiant y Deyrnas Unedig.

**69.** Er ein bod yn cydnabod datganiad y Gweinidog nad ei bwriad yw cael y pwerau hyn mewn Bil yn y Deyrnas Unedig am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan honiad y Gweinidog bod angen i Lywodraeth Cymru gadw'r pwerau hyn yn y Bil "cyhyd ag y gallai fod eu hangen arnom". Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru gadw pwerau gweithredol o fewn Bil y Deyrnas Unedig cyhyd ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

**70.** Byddai pennu terfyn amser ar y darpariaethau yn y Bil sy'n berthnasol i Gymru yn darparu eglurder dymunol i ddiwydiant pysgota Cymru, a hefyd yn cryfhau sicrwydd y Gweinidog bod y darpariaethau yn rhai trosiannol. Gallai cynnwys darpariaeth machlud hefyd gynorthwyo Llywodraeth nesaf Cymru i ddatblygu amserlen fframwaith ar gyfer paratoi Bil Pysgodfeydd Cymru.

**71.** Yn argymhelliad 4 ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom awgrymu y dylai cymal machlud nodi dyddiad yn 2024. Er nad yw'n ddelfrydol, ni welwn unrhyw reswm pam na allai pŵer Harri VIII i Weinidogion Cymru ddod fod ynghlwm wrth ddarpariaeth machlud o'r fath, a fyddai'n caniatáu ymestyn y dyddiad machlud hyd at ddwy flynedd. Dylai pŵer gwneud rheoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

> **Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog geisio diwygio Bil y Deyrnas Unedig fel bod y darpariaethau yn y Bil sy'n berthnasol i Gymru yn destun cymal machlud sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i ben erbyn diwedd 2024. Dylai cymal machlud o'r fath ganiatáu ymestyn y dyddiad penodedig ddwy flynedd galendr yn rhinwedd rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

**72.** Mae ein sylwadau bellach yn troi at y pwerau llunio rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 3 i'r Bil. Tynnodd ein hadroddiad cyntaf sylw at Atodlen 3 a'r ddarpariaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru arfer pwerau, fel awdurdod trwyddedu pysgod môr, am resymau hwylustod.

**73.** Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi darparu ymateb i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad cyntaf, ac mae hi hefyd wedi ymateb i gwestiwn dilynol yn ein llythyr ar 31 Gorffennaf 2020.

**74.** Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn aneglur pryd a pham y byddai angen i Weinidog Cymru arfer pwerau Atodlen 3 am resymau hwylustod. Caniateir i Weinidogion Cymru hefyd ddefnyddio'r pwerau hyn pan fyddant o'r farn bod hynny'n angenrheidiol ac, yn ein barn ni, mae hynny'n rheswm mwy priodol a digonol.

> **Argymhelliad 4.** Dylid diwygio'r Bil i gael gwared ar unrhyw gyfeiriad at 'hwylustod ('expedient') o baragraffau 1, 2 a 5 o Atodlen 3.

**75.** Nid ydym yn fodlon â'r esboniadau a ddarparwyd gan y Gweinidog hyd yn hyn ar y mater hwn.

**Argymhelliad 5.** Os na chytunir ag argymhelliad 4, rhaid i'r Gweinidog egluro o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n hwylus arfer y pwerau yn Atodlen 3 fel awdurdod trwyddedu pysgod môr

**76.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 50, gellid ystyried bod rhai o'r darpariaethau yn yr Atodlen 10 newydd yn ymwneud ag arsylwi neu weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n faterion wedi eu datganoli.

**77.** Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog ar y mater hwn ac yn croesawu lefel y manylder a ddarperir gan y Gweinidog yn yr Atodiad i'w llythyr atom ar 3 Medi. Ar ôl adolygu tystiolaeth y Gweinidog a chymryd cyngor gan gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor, mae ein dealltwriaeth o'r sefyllfa fel a ganlyn.

**78.** Collodd Gweinidogion Cymru swyddogaethau yn 2019 pan wnaethant ganiatáu i Weinidogion y Deyrnas Unedig wneud tair set o Reoliadau[38] ar eu rhan yn diwygio rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â physgodfeydd (gweler paragraff 53 uchod). Fe wnaeth ein gwaith craffu ar y datganiadau Rheolau Sefydlog 30C cysylltiedig dynnu sylw at golli swyddogaethau. Er enghraifft, o ran Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (a ddiwygiodd Reoliad Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin 2019/472 yr Undeb Ewropeaidd) fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y Rheoliadau'n creu swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Deyrnas Unedig ar yr un pryd ac, o dan Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006), ni all y Senedd ddileu nac addasu swyddogaethau cydamserol o'r fath (i'r graddau y maent yn cael eu harfer gan Weinidogion y Deyrnas Unedig) heb gydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nodom ymhellach, er bod hyn yn cael effaith negyddol ar bwerau deddfwriaethol y Senedd, dywedir yn natganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrthi'n trafod, gyda'r bwriad o gyfyngu'r effaith negyddol honno drwy ddiwygio Atodlen 7B i Ddeddf 2006 (drwy orchymyn o dan adran 109 o Ddeddf 2006).

**79.** Mae Atodlen 10 i'r Bil yn gwneud newidiadau pellach i Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir erbyn hyn - gweler paragraff 52). O ran y diwygiadau y mae Atodlen 10 yn eu gwneud i Reoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd a Rheoliad Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd yr Undeb Ewropeaidd, mae'r swyddogaethau perthnasol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol y tu allan i gymhwysedd y Senedd, felly nid oes unrhyw

[38] Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

effaith ymarferol o ganlyniad i newid cyfeiriadau o weinyddiaeth pysgodfeydd ("fisheries administration") i Ysgrifennydd Gwladol ("Secretary of State").

**80.** Fodd bynnag, o ran y diwygiadau mae Atodlen 10 yn eu gwneud i reoliad yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â Chynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin, mae'r swyddogaethau a osodir ar yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn cymhwysedd y Senedd ac felly mae effaith ymarferol a negyddol newydd ar gymhwysedd y Senedd. Er ein bod yn cydnabod (yn rhinwedd paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) y gallai Deddf Senedd yn y dyfodol (neu y gallai rhoi pŵer drwy Reoliadau Cymru yn y dyfodol) gael gwared ar y swyddogaethau hyn a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o bosibl eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, nid yw hon yn sefyllfa foddhaol.

**81.** Credwn y dylid bod yn eglur ynghylch unrhyw swyddogaeth a gollodd Gweinidogion Cymru o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor ac egluro a yw Gweinidogion Cymru wedi colli swyddogaethau o ganlyniad i ddiwygio:

- Y Rheoliad Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Rheoliad 1380/2013 yr Undeb Ewropeaidd);
- Cynllun Aml-flynyddol Môr y Gogledd (Rheoliad 2018/973 yr Undeb Ewropeaidd);
- Cynllun Aml-flynyddol Dyfroedd y Gorllewin (Rheoliad 2019/472 yr Undeb Ewropeaidd),

naill ai drwy Weinidogion y Deyrnas Unedig mewn rheoliadau neu yn dilyn hynny drwy Atodlen 10 i'r Bil.

**Argymhelliad 7.** Mewn perthynas ag argymhelliad 6, os collwyd swyddogaethau i Weinidogion Cymru, rhaid i'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor ac egluro sut dylid adfer y swyddogaethau hynny.

**82.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 55, nodir yn yr Atodiad i lythyr y Gweinidog atom ar 3 Medi "Os nad yw'r pŵer neu'r rhwymedigaeth yn perthyn i'r naill gategori na'r llall, yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r weinyddiaeth sy'n gyfrifol am bysgodfeydd ac felly'n delio â'r mater hwnnw mewn perthynas â Chymru." Rydym yn pryderu am y cyfeiriad hwn, sy'n ymddangos fel pe bai'n awgrymu dychwelyd i fodel datganoli pwerau a roddir, lle mai dim ond cymhwysedd deddfwriaethol yn

y meysydd a roddir iddi yn benodol sydd gan y Senedd. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad gan y Gweinidog ar y mater hwn.

**83.** Rydym yn dod â'n casgliadau i ben drwy nodi y dylai sawl newid a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi fod wedi cael eu cynnwys ym Memorandwm Rhif 2 gan fod y newidiadau yn effeithio ar ddarpariaethau sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â chymal 2 (Cyd-ddatganiad pysgodfeydd), cymal 28 (Dyletswyddau i sicrhau na eir y tu hwnt i gyfleoedd pysgota) a chymal 54 (Teitl byr).

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r newidiadau a wneir i gymalau 2, 28 a 54 wedi eu cyfeirio'n glir ym Memorandwm Rhif 2 fel darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd.

**84.** O ran Memorandwm Rhif 3, mae'n resyn ei fod wedi ei osod ar adeg mor agos at y dyddiad a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dadl cynnig cydsyniad ar y Bil fel na fydd yn bosibl i Bwyllgorau'r Senedd graffu arno.